YSGOL BRYNREFAIL

DWI'N ATHRO !
TYNNWCH FI O 'MA !

Yr oedd rhai mewn cryndod yn disgwyl am eu tynged !
Bu aelodau o'r chweched dosbarth wrthi trwy'r bore yn paratoi coctel o gynhwysion estron er i aelodau o staff, rhai sydd yn arbenigo mewn bwyta, eu blasu a'u dadansoddi.
Trefnwyd yr ornest gan aelodau o flwyddyn 12 yn rhan o'u hymgyrch i godi arian tuag at achosion da.
Ac yn wir yr oedd y neuadd yn orlawn a'r holl ddisgyblion yn eiddgar i weld aelodau'r staff yn dioddef eu tynged.

Ond fe fwriodd Mrs Sioned Roberts ymlaen gyda'r prawf blasu (er iddi fod yn ddiolchgar bod y bwced gerllaw !).
Ar ddiwedd y dydd yr oedd yr ornest a drefnwyd gan Fflur,Cerian,Ffion ac Erin Haf o flwyddyn 12 yn llwyddiant aruthrol ac fe godwyd £90 tuag at yr achosion.